

Gofrestru Pleidleiswyr Senedd Ewrop

Os ydych yn ddinesydd o un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) a restrir isod, ac yn byw yn y DU, gallwch gofrestru i bleidleisio yn y DU mewn etholiad Seneddol Ewropeaidd.

Awstria	Estonia	Yr Eidal	Portiwgal
Gwlad Belg	Y Ffindir	Latfia	Rwmania
Bwlgaria	Ffrainc	Lithwania	Slofacia
Croatia	Yr Almaen	Lwcsembwrg	Slofenia
Y Weriniaeth Tsiec	Gwlad Groeg	Yr Iseldiroedd	Sbaen
Denmarc	Hwngari	Gwlad Pwyl	Sweden

Os ydych yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, Malta neu Cyprus, rydych yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ym mhob etholiad yn y DU ac felly nid oes angen i chi ddefnyddio'r ffurflen hon.

Efallai eich bod eisoes ar y Gofrestr Etholwyr fel etholwr llywodraeth leol, fodd bynnag, i allu pleidleisio mewn Etholiad Seneddol Ewropeaidd yn y DU, rhaid i chi lenwi ffurflen gofrestru ar wahân.

Ni allwch bleidleisio yn yr etholiadau Seneddol Ewropeaidd mewn mwy nag un wlad. Os byddwch yn llenwi'r ffurflen hon, rydych yn cytuno i bleidleisio yn y DU yn unig, ac **nid** yn eich mamwlad. Ond cofiwch, gallwch ganslo'r cofrestriad hwn hyd at 7 Mai 2019.

Os ydych yn bwriadu pleidleisio yn yr etholiadau Seneddol Ewropeaidd yn eich mamwlad yn hytrach na'r DU, **peidiwch** â llenwi'r ffurflen hon.

Mae'n ofynnol i bob dinesydd yr Undeb Ewropeaidd lenwi ffurflen ar wahân os ydynt am wneud cais i allu pleidleisio yn yr Etholiad Seneddol Ewropeaidd nesaf ar 23 Mai 2019.

Rhaid i'r Ffurflen Gofrestru Etholiad Seneddol Ewropeaidd gyrraedd ein swyddfa erbyn **7 Mai 2019**.

Pwysig:

- Fel dinesydd un o wledydd yr UE, ni fyddwch yn gallu pleidleisio mewn unrhyw Etholiad Cyffredinol y DU, ond bydd llenwi'r Ffurflen Gofrestru Etholiad Seneddol Ewropeaidd yn eich galluogi i bleidleisio yn yr Etholiad Seneddol Ewropeaidd nesaf.
- Hyd yn oed os ydych eisoes ar y Gofrestr Etholwyr fel etholwr llywodraeth leol, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar wahân i allu pleidleisio yn yr Etholiad Seneddol Ewropeaidd yn y DU.